**Ieuan Wyn Jones AC/AM**
**Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/DFM/0068/07.

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Rhagfyr 2007

Annywl David,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO (3) 01-07 – TACHWEDD 2007.**

**“DIOGELU ARIAN CYHOEDDUS YM MHROSIECTAU LG, CASNEWYDD”.**

**YMATEB I ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Mae’n bleser gennyf amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i’r adroddiad uchod a fydd yn cael ei osod ger bron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch i chi a’r Pwyllgor am gynnal yr ymchwiliad a llunio’r adroddiad yn ofalus ac yn ystyriol.

**Ieuan Wyn Jones**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for the Economy and Transport**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk

**YMATEB I ADRODDIAD PWYLLGOR ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR:**

**"DIOGELU ARIAN CYHOEDDUS YM MHROSIECTAU LG, CASNEWYDD".**

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR (3) 01-07 - TACHWEDD 2007.**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r Adroddiad, ac rydym yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r pedwar argymhelliad a wnaed ynddo. Yn ogystal, mae eitem (1) yr argymhellion yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i bob un o'r deg argymhelliad a wnaed yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol (dyddiedig 13 Mawrth 2007) fel rhan o'i hymateb i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

Rydym yn bwriadu ymdrin yn gyntaf â'r deg argymhelliad a wnaed yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**ARGYMHELLION**

1. **Cadarnhau, ar ôl cytuno mewn egwyddor ar becyn cymorth, a oes unrhyw elfennau ohono nad ydynt yn rhan o'r cynlluniau a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac os felly, rhoi gwybod am y pecyn cyfan yn ddi-oed.**

   **Derbynnir yr argymhelliad** – mae pob pecyn cymorth busnes erbyn hyn yn cael ei adolygu at ddiben materion sy'n ymwneud â chymorth gwladwriaethol ar ddechrau'r trafodaethau a gynhelir â'r ymgeisydd, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cynlluniau a gymeradwywyd gan Gomisiwn yr UE. Mae'r gwaith adolygu hwn bellach yn rhan o adolygiad cychwynnol prosiect dan y Gronfa Fuddsoddi Sengl newydd arfaethedig.

2. **Cadarnhau'r ffigur buddsoddi a gyflwynir i'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o'r broses gymeradwyo, a dogfennu hyn yn llawn. Dylid cadarnhau gwybodaeth o'r fath ymlaen llaw gyda'r ymgeisydd, a'i chysoni â chytundebau ariannu.**

   **Derbynnir yr argymhelliad** – mae'r camau gweithredu a argymhellir yn rhan o'r broses arfarnu erbyn hyn, a sicrheir cytundeb yr ymgeisydd cyn y caiff unrhyw ffigur ei gyflwyno i'r Comisiwn. Dylid nodi nad oes angen gwneud hyn yn aml iawn gan fod y rhan fwyaf o'n prosiectau yn syrthio o fewn y terfynau y cytunwyd arnynt ar gyfer cymorth gwladwriaethol ac nad oes angen rhoi gwybod amdanynt i'r Comisiwn.

3. **Oni bai bod rhesymau cymhellol oherwydd cyfrinachedd neu bolisi cyhoeddus a allai gyfyngu ar hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod mor agored â phosibl ynglŷn â chymorth gwladwriaethol gyda'r sawl sy'n ei dderbyn.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – rydym bob amser yn ceisio bod mor agored ag sy’n bosibl gyda phob ymgeisydd, yn enwedig mewn achosion lle gallai fod angen mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â chymorth gwladwriaethol. Yn dilyn datganoli, a chan weithredu o fewn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno â Llywodraeth y DU, rydym yn gallu troi’n uniongyrchol at y Comisiwn i gael cyngor a chytundeb, â chymorth ein Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol a Chynrychiolydd y DU ym Mrwsel.

4. **Monitro cymorth gwladwriaethol tra bydd y prosiect yn cael ei weithredu. Dylai’r wybodaeth angenrheidiol gael ei chasglu a’i dadansoddi ar gyfnodau priodol gan rywun â chyfrifoldeb clir am y dasg honno.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – caiff terfynau cymorth gwladwriaethol eu monitro’n agos iawn gan y Tîm Monitro o fewn Buddsoddi Cymru, sy’n perthyn i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Rydym yn casglu gwybodaeth fel mater o drefn o bob maes arall o fewn y Llywodraeth sydd wedi cynorthwyo prosiect arbennig, er mwyn sicrhau na eir y tu hwnt i’r terfynau a bennwyd ar gyfer cymorth gwladwriaethol. Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hymgorffori yn y Gronfa Fuddsoddi Sengl newydd arfaethedig.

5. **Y dylai cytundebau cyfreithiol sy’n darparu asedau er budd penodol buddsoddwyr - er enghraifft, tir a seilwaith - gynnwys amodau a fydd yn fodd i adennill yr asedau neu eu gwerth os bydd y prosiect yn methu â gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn y targedau.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – caiff llythyrau cynnig eu llunio’n ofalus iawn erbyn hyn, ac maent i gyd (gan gynnwys llythyrau cynnig ar gyfer tir, adeiladau a seilwaith) yn cynnwys cymalau clir sy’n ymwneud ag adennill asedau neu eu gwerth. Yn benodol, cafodd y llythyrau cynnig ar gyfer tir ac adeiladau eu diwygio yn dilyn Prosiect LG, ac erbyn hyn maent yn cynnwys cymalau sy’n awgrymu arwystlon cyfreithiol neu sicrwydd priodol arall mewn perthynas ag asedau a gefnogir gan y pecyn cymorth.

6. **Y dylid cynnwys cymal cyffredinol a fydd yn fodd i adennill cymorth gwladwriaethol pe bai cwmni yn mynd y tu hwnt i’r terfynau mewn cytundeb cyffredinol, neu mewn cytundeb ariannu perthnasol.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – fel yr amlinellir uchod, mae pob llythyr cynnig erbyn hyn yn cynnwys cymalau sy’n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer adennill cymorth, yn enwedig mewn achosion lle eir y tu hwnt i’r terfynau a bennwyd ar gyfer cymorth gwladwriaethol. Fodd bynnag, gan fod terfynau cymorth gwladwriaethol yn cael eu hadolygu’n fanwl iawn yn ystod y broses dalu a monitro, dylai fod modd atal achosion o fynd y tu hwnt i’r terfynau erbyn hyn.

7. **Y dylai pob cytundeb grant gynnwys amodau addas ar gyfer atal ac adennill grant cyn cwblhau prosiect, yn seiliedig ar feini prawf penodol, yn ogystal ag adennill arian grant ar ôl cwblhau.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – mae pob llythyr cynnig erbyn hyn yn cynnwys cymalau addas ar gyfer atal ac adennill grant cyn ac ar ôl cwblhau prosiect ac yn ystod y cyfnod monitro ar ôl cwblhau prosiect.

8. **Y dylai cytundebau ariannu nodi'n glir am ba hyd y mae'r amodau adennill yn gymwys a phryd y bydd y cyfnod hwn yn dechrau.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – mae llythyrau cynnig yn amlinellu'r amodau gan nodi dyddiad dechrau a hyd y cyfnod adennill. Fel rheol, mae'r cyfnod hwnnw'n ymestyn o'r dyddiad yr eir y tu hwnt i'r terfynau hyd nes bod amodau'r prosiect yn gorffen bod yn gymwys.

9. **O dan amgylchiadau eithriadol, os oes angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu grantiau sy'n gysylltiedig â swyddi mewn perthynas ag un cam o brosiect yn unig, yna dylai'r cytundebau gynnwys darpariaethau clir iawn ar gyfer adennill arian grant os na fydd nifer y swyddi ar gyfer y prosiect cyfan yn cyflawni'r targedau.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – nid yw'r sefyllfa hon yn gallu codi bellach gan fod cysylltiad agos rhwng pob rhan o brosiect. Erbyn hyn, ni cheir unrhyw gamau sydd ar wahân i'w gilydd o fewn prosiect; yn hytrach, ceir un prosiect yn unig â cherrig milltir a nodau y mae'n rhaid eu cyrraedd cyn y bydd taliadau grant yn cael eu rhyddhau. Mae pob llythyr cynnig cyfredol yn cynnwys amodau adennill clir a ddaw i rym os na fydd y nifer o swyddi a gaiff eu creu yn cyrraedd y targedau priodol.

10. **Lle y bydd angen blaenlwytho cymorth i sicrhau prosiect, dylid hysbysu'r ymgeisydd, yn ysgrifenedig, o oblygiadau peidio â gwneud hynny.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – fel y nodwyd uchod, gwneir hynny ym mhob llythyr cynnig pan ddarperir cymorth o'r fath. Fodd bynnag, dylid nodi mai ar adegau prin iawn y gwneir hynny bellach.

Cyfeiriwn yn ôl at yr argymhellion eraill a wnaed yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

**ARGYMHELLION**

11. **Rydym yn argymell y dylai cytundebau cyfreithiol i roi cymorth ar gyfer prosiectau sydd wedi'u trefnu'n rhannau bennu'n eglur y symiau a'r amodau ar gyfer pob rhan, fel bod iawn clir ar gael i'r corff cyllido os na fydd rhannau'n mynd yn eu blaen yn nes ymlaen yn unol â'r cynllun. Dylai Llywodraeth y Cynulliad geisio**

**osgoi blaenlwytho cymaint nes y byddai'r rhannau cynnar yn torri'r cyfyngiadau cymorth gwladwriaethol pe na bai'r rhannau canlynol yn mynd yn eu blaen.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – mae pob llythyr cynnig yn amlinellu cerrig milltir clir ar gyfer hawlio taliad grant, ac mae'r cerrig milltir hynny'n ymwneud â gwariant cyfalaf ac – fel rheol – nifer y swyddi y mae'n rhaid eu creu cyn cael y taliad grant. Yn ogystal, mae amodau a thelerau pob llythyr cynnig yn nodi'n glir pryd y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru atal grant os nad yw'r prosiect yn gwneud cynnydd digonol, a phryd y gall adennill grant os nad yw'r amodau'n cael eu bodloni neu os yw sefyllfa prosiect yn newid ar ôl taliad grant. Ni chaiff cymorth grant ei flaenlwytho erbyn hyn. Fodd bynnag, pe bai hynny'n cael ei argymell neu pe bai hynny'n nodwedd hanfodol o brosiect, mae'r broses fonitro sydd bellach ar waith yn sicrhau na eir byth y tu hwnt i'r terfynau a bennwyd ar gyfer cymorth gwladwriaethol.

111. **Pan fydd ffyrm yn ceisio amrywio'r safon neu'r amodau y cytunwyd arnynt o'r blaen mewn cytundeb cyfreithiol ar gyfer grant neu fath arall o gymorth gwladwriaethol, rydym yn argymell y dylai'r swyddogion asesu'r risgiau o dan sylw a gofyn am gyngor cyfreithiol ar oblygiadau'r newid os yw'r symiau o dan sylw yn sylweddol neu os yw'r materion yn gymhleth.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – cynhelir asesiad risg llawn yn ystod y broses arfarnu fanwl ar gyfer pob prosiect, a gwneir hynny er mwyn sicrhau nad yw cymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei beryglu'n ddiangen. Dan y Gronfa Fuddsoddi Sengl newydd arfaethedig, bydd asesiad risg ffurfiol yn cael ei gynnal ar gyfer pob cais, a bydd yr asesiadau hynny'n cael eu cofnodi yn y ffeil gofrestredig. Caiff yr asesiad risg ei adolygu a'i ddiweddaru os gwneir unrhyw newidiadau i'r cais a/neu'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth. Gofynnir am gyngor cyfreithiol lle bo hynny'n briodol.

1V. **Rydym yn argymell y dylai datganiadau cyhoeddus ar becynnau cymorth ar gyfer buddsoddiadau mawr ddweud bod y cymorth yn dibynnu ar ddiwydrwydd dyladwy a chwblhau'r contractau, ac y dylid sicrhau cytundeb clir ar brif amodau'r cytundebau, gan gynnwys y darpariaethau ynglŷn ag adennill cymorth, a hynny cyn i'r datganiad gael ei wneud.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – mae cytuno â'r ymgeisydd ar ddatganiadau cyhoeddus a sicrhau cymeradwyaeth Swyddfa'r Gweinidog cyn i'r datganiadau gael eu rhyddhau yn arfer cyffredin. Caiff y datganiadau hyn i'r wasg eu rhyddhau ar ôl cwblhau'r broses sy'n gysylltiedig ag arfarnu a diwydrwydd dyladwy ac ar ôl cael cymeradwyaeth Uwch-swyddog neu Weinidog. Erbyn hyn, ni chaiff unrhyw ddatganiadau eu rhyddhau cyn cwblhau'r broses arfarnu a chyn cytuno â'r ymgeisydd ar bob un o'r cerrig milltir a'r amodau.

V. **Rydym yn argymell y dylai cytundebau cyfreithiol ar gyfer prosiectau mawr gynnwys cyfres o gerrig milltir interim i asesu'r cynnydd yn glir yn eu herbyn, yn enwedig os caiff y prosiect ei gyflawni mewn rhannau pendant.**

**Derbynnir yr argymhelliad** – mae pob llythyr cynnig erbyn hyn yn cynnwys cerrig milltir clir y mae'n rhaid eu cyrraedd cyn y caiff taliad grant ei ryddhau. Caiff pob prosiect ei gyflwyno ar ffurf prosiect un cam, a chaiff y grant ei dalu bob yn dipyn pan fo'r targedau priodol y cytunwyd arnynt wedi'u cyflawni. Yn ogystal, cynhelir adolygiad hyfywedd mewn perthynas â phrosiectau cyn rhyddhau grant.